YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 38/2020
DYDDIAD CYHOEDDI: 04/06/2020

# Gwerthusiad o’r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol

**Crynodeb**

## 1. Nodau’r ymchwil

1.1 Comisiynwyd Ymchwil OB3, ar y cyd â Hatch Regeneris a Dateb, gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ym mis Ebrill 2019 i gynnal gwerthusiad o’r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol (Timau Ymgysylltu).

1.2 Nodau’r gwerthusiad oedd:

- asesu’r cynnydd a wnaed gan y Timau Ymgysylltu tuag at eu hamcan cyffredinol, sef cynyddu i’r eithaf fanteision rhaglenni’r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) i bob rhanbarth yng Nghymru
- darparu argymhellion ar gyfer gweithgareddau’r Timau Ymgysylltu am weddill cyfnod y rhaglenni a
- darparu argymhellion ar gyfer dulliau ymgysylltu rhanbarthol a buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit.

**Dull**

1.3 Cwblhawyd y gwerthusiad rhwng mis Ebrill a mis Awst 2019, ac roedd yn cynnwys:

- Cam cychwynnol, gan gynnwys presenoldeb mewn cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion WEFO, cyfweliadau cwmpasu a pharatoi cynllun ar gyfer prosiect gwerthuso.
- Ymchwil desg i ddadansoddi dogfennau perthnasol ar lefel polisi, rhaglenni ac ar lefel weithredol.
- Adolygu dulliau o gyflawni rhaglenni’r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) ledled Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Adolygu model rhesymeg gwreiddiol y Ddamcaniaeth Newid a oedd yn bodoli ar gyfer gweithrediad y Timau Ymgysylltu a hwyluso gweithdy i drafod y model hwn.
- Casglu barn rhanddeiliaid a gweithrediadau a ariennir drwy arolwg ar y we.
- Cyflawni pecyn o waith maes gyda phob Tîm Ymgysylltu a’r awdurdodau lleol sy’n eu lletya.
- Gwneud gwaith maes gyda sampl o 25 o weithrediadau a ariennir gan gronfeydd ESI, swyddogion WEFO a sefydliadau eraill sy’n rhanddeiliaid allweddol.

- Dansoddi'r canfyddiadau a datblygu model rhesymeg Damcaniaeth Newid diwygiedig ar gyfer y gweithrediad.

**Timau Ymgysylltu Rhanbarthol**

1.4 Mae pedwar Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol (Tîm Ymgysylltu) yn cael eu cyllido ar hyn o bryd fel rhan o Raglen Weithredol Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) yng Nghymru, gyda'r amcan o gynyddu i'r eithaf fanteision buddsoddiad ESI yn eu priod ranbarthau. Ariennir y timau drwy'r flaenoriaeth Cymorth Technegol ar draws pob un o bedwar gweithrediad y rhaglen cronfeydd ESI yng Nghymru.

1.5 Sefydlwyd y Timau Ymgysylltu i helpu i wella'r ffordd y byddai cyllid ESI yn cael ei ddefnyddio a'i reoli ar draws y rhaglenni gweithredol cyfredol ac roedd disgwyl iddynt adeiladu ar y dulliau Cymorth Technegol a fabwysiadwyd yn ystod rhaglenni blaenorol.

1.6 Yn dilyn galwad am gynigion cyllido, cymeradwywyd y pedwar Tîm Ymgysylltu canlynol yn 2016:

- Y De-ddwyrain yn cael ei arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cwmpasu 10 ardal awdurdod lleol
- Bae Abertawe yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ar ran Dinas-ranbarth Bae Abertawe ac yn cwmpasu pedair ardal awdurdod lleol
- Canolbarth Cymru yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Ceredigion ar ran Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ac yn cwmpasu dwy ardal awdurdod lleol
- Gogledd Cymru yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Conwy ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac yn cwmpasu chwe ardal awdurdod lleol.

1.7 Dyrannwyd cyllid o £2.55 miliwn i weithgareddau'r Timau Ymgysylltu, tan 31 Mawrth 2021 i ddechrau a chafodd hyn ei ymestyn tan 31 Mehefin 2023, gyda'r disgwyliad y bydd y Timau yn defnyddio'u tanwariant i gyllido'r estyniad hwn.

1.8 Roedd disgwyl y byddai'r Timau Ymgysylltu yn rhan o brawf-fesur ceisiadau am gyllid o safbwynt rhanbarthol a sicrhau bod gweithrediadau'n ategu, yn hytrach na dyblygu, ei gilydd wrth gael eu cyflawni. Roedd disgwyl hefyd y byddent yn cyfrannu at bum dangosydd allbwn Cymorth Technegol a oedd yn ymwneud â digwyddiadau hyfforddi, digwyddiadau lledaenu, datganiadau i'r wasg, e-gylchlythyrau a nifer o gyflogeion a gyd-ariennir.

## 2. Canfyddiadau allweddol y gwerthusiad

2.1 Mae canfyddiadau allweddol y gwerthusiad fel a ganlyn:

- Mae'r Timau Ymgysylltu wedi bod yn gweithredu o fewn tirweddau rhanbarthol dynamig ac esblygol iawn. Maent wedi cynnig sefydlogrwydd ac wedi chwarae rôl bwysig o ran cyfleu'r newidiadau rhanbarthol hyn i eraill. Mae cyfle i ymgorffori ac integreiddio'r swyddogaethau a gyflawnir gan y Timau ymhellach i'w priod strwythurau rhanbarthol wrth i'r dirwedd esblygu yn y dyfodol.
- Roedd ymdrechion y Timau Ymgysylltu i brawf-fesur ceisiadau o safbwynt rhanbarthol wedi'u cyfyngu'n bennaf i weithrediadau a oedd yn cael eu harwain yn rhanbarthol oherwydd y ffaith bod Timau wedi cael eu sefydlu'n hwyr yn y dydd ac ar ôl i weithrediadau asgwrn cefn cenedlaethol Llywodraeth Cymru gael eu cymeradwyo. O ganlyniad, mae'r Timau Ymgysylltu wedi canolbwyntio ar fynd ati'n ôl-weithredol i brawf-fesur rhai gweithrediadau a ariennir o safbwynt rhanbarthol i sicrhau eu bod yn gyson â blaenoriaethau ac anghenion rhanbarthol.
- Roedd y rhan fwyaf o weithrediadau a ariennir ac a gyfrannodd at y gwerthusiad mewn cysylltiad yn rheolaidd ag o leiaf un Tîm Ymgysylltu ac roedd y mwyafrif yn meddwl bod y Timau yn cyflawni eu rôl yn effeithiol.

- Mynegodd gweithrediadau a ariannwyd lefelau gwahanol iawn o ddealltwriaeth am rôl y Timau Ymgysylltu ac o bryd i'w gilydd roeddent yn eu drysu â rôl a gyflawnir gan eraill, megis Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a WEFO.
- Roedd gweithrediadau a ariennir o'r farn bod y Timau Ymgysylltu yn adnodd defnyddiol i wella eu dealltwriaeth o flaenoriaethau rhanbarthol, i'w hysbysu'n gyson am ddatblygiadau rhanbarthol a oedd yn esblygu ac i gael cyfleoedd i ymgysylltu â gweithrediadau eraill.
- Mae tri o'r Timau Ymgysylltu yn hwyluso rhwydweithiau. Y rhwydweithiau mwyaf effeithiol ym marn y cyfranwyr oedd y rhai a oedd yn canolbwyntio ar themâu a materion penodol, yr oedd niferoedd da yn eu mynychu ac a oedd hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd clòs â gweithrediadau eraill.
- Cyfleodd y cyfranwyr farn gymysg ynglŷn â rôl y Timau Ymgysylltu o ran blaenoriaethu ceisiadau ar draws Blaenoriaeth 4 o raglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), yn enwedig y gweithrediad Adeiladu ar gyfer y Dyfodol.
- Hyd yma, cyfyngedig fu mynediad y Timau Ymgysylltu at ddata am berfformiad gweithrediadau a ariennir ac mae cyfle i flaenoriaethu'r agwedd hon ar eu gwaith ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglen.
- Mae perthynas waith adeiladol rhwng y Timau Ymgysylltu a WEFO gyda grŵp llywio'r Timau yn cael ei amlygu fel fforwm arbennig o effeithiol.
- O ran perfformiad yn erbyn targedau ar gyfer gweithrediadau a ariennir gan WEFO, mae'r Timau Ymgysylltu yn perfformio'n dda yn erbyn tri tharged sy'n ymwneud â digwyddiadau hyfforddi, digwyddiadau lledaenu ac e-gylchlythyrau.
- O ran gwariant, roedd yr holl Dimau Ymgysylltu yn adrodd ar danwariant yn erbyn y gyllideb a broffiliwyd ar eu cyfer yn bennaf oherwydd oedi cyn rhoi gweithrediadau ar ben ffordd.
- Mae'r Timau Ymgysylltu yn llwyddo i gofleidio nifer o'u hamcanion mewn perthynas â'r themâu trawsbynciol ond nid yw nifer o'u camau gweithredu arfaethedig yn y maes hwn wedi cael eu rhoi ar waith eto.

## 3. Casgliadau ac argymhellion

3.1 Daw'r gwerthusiad i'r casgliad fod y Timau Ymgysylltu wedi gallu gwneud cynnydd da hyd yma tuag at eu hamcan cyffredinol, sef sicrhau bod cyllid ESI o fudd i'w priod ranbarthau. Mae eu prif gyflawniadau hyd yma wedi ymwneud ag ymgysylltu, cyfathrebu a rhwydweithio. Mae'r Timau wedi helpu i sicrhau bod gweithrediadau a ariennir yn ystyried anghenion a strategaethau rhanbarthol ac wedi cyflawni rôl bwysig o ran cyfleu gwybodaeth am dirweddau rhanbarthol sy'n esblygu i weithrediadau a ariennir a rhanddeiliaid. Mae rhwydweithiau rhanbarthol yn gryfach o ganlyniad i weithgareddau'r Timau Ymgysylltu.

3.2 Mae'r Timau Ymgysylltu yn ychwanegu gwerth at weithrediadau a ariennir yn ogystal â phartneriaethau rhanbarthol. Mae parch mawr at eu digwyddiadau a'u gweithgareddau ac maent yn ddefnyddiol er mwyn rhannu arfer gorau, casglu gwybodaeth a meithrin perthnasoedd. Fodd bynnag, mae natur, mynychder a defnyddioldeb gweithgareddau'r Timau Ymgysylltu yn amrywio o un Tîm i'r llall ac felly byddai o fudd anelu at sicrhau mwy o gysondeb o ran sut y mae'r Timau Ymgysylltu yn ymwneud â gweithrediadau a ariennir.

3.3 Mae'r Timau Ymgysylltu yn uchel eu parch a chafodd profiad blaenorol swyddogion y Timau ei nodi fel cryfder. Mae cyfle i ehangu rhwydweithiau'r Timau ymhellach fyth dros weddill cyfnod y rhaglen.

3.4 Wrth ystyried y canlyniadau cyfryngol gwreiddiol a nodir ym model y Ddamcaniaeth Newid, daw'r gwerthusiad i'r casgliad bod y Timau Ymgysylltu wedi gallu gwneud cyfraniad effeithiol tuag at eu hamcan i gysoni ymyriadau â blaenoriaethau rhanbarthol drwy ymgysylltu â gweithrediadau a chyfranogwyr eraill a hwyluso deialog rhyngddynt. Cyfyngwyd ar allu'r Timau i gyflawni eu swyddogaethau prawf-fesur ceisiadau am gyllid o gronfeydd ESI o safbwynt rhanbarthol am eu bod yn hwyr yn cychwyn ac oherwydd eu diffyg ymwneud â gweithrediadau asgwrn cefn strategol. Er

gwaethaf hyn, maent wedi bod yn cyflawni'r dasg hon yn ôl-weithredol mewn modd effeithiol. Mae'r Timau Ymgysylltu ar y trywydd iawn i gyfrannu tuag at eu canlyniad i sicrhau bod gweithrediadau'n ategu ei gilydd ac maent wedi helpu i leihau, ond nid dileu, dyblygu ar draws ymyriadau.

3.5 Byddai'n afrealistig disgwyl i'r Timau Ymgysylltu gyflawni eu canlyniad disgwyliedig i sicrhau bod niferoedd da yn manteisio ar weithrediadau yn eu rhanbarth. Mae'r gwerthusiad yn awgrymu mai canlyniad mwy addas fyddai 'mae gweithrediadau'n meddu ar wybodaeth dda am wasanaethau eraill felly maent yn gallu atgyfeirio cyfranogwyr yn unol â'u hanghenion'. Yn yr un modd, nid ellir disgwyl i'r Timau effeithio ar nifer y gweithrediadau rhanbarthol neu Gymru gyfan yn eu rhanbarth gan nad oes unrhyw gyfrifoldeb ganddynt am ddyfarnu cyllid. Mae'r gwerthusiad yn nodi model rhesymeg Damcaniaeth Newid diwygiedig yn Ffigur 9.1. Mae hwn yn cyflwyno pum canlyniad canolradd sy'n rhoi adlewyrchiad gwell o weithgareddau gwirioneddol y Timau Ymgysylltu, gan gynnwys canlyniadau na chawsant eu nodi yn y model gwreiddiol o ran bod gweithrediadau'n ymgysylltu ac yn cydweithio â'i gilydd a bod gweithrediadau'n meddu ar wybodaeth dda am wasanaethau eraill fel eu bod yn gallu atgyfeirio cyfranogwyr yn briodol.

## Argymhellion

3.6 Mae'r gwerthusiad yn awgrymu'r canlynol ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglen:

- Dylai'r Timau Ymgysylltu barhau i gyflawni eu swyddogaethau fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ond sicrhau bod unrhyw faterion o ran capasiti staff yn cael sylw fel mater o flaenoriaeth.
- Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio i sicrhau nad yw'r ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol yn amharu ar allu Timau Ymgysylltu Rhanbarthol i gadw staff medrus a gwybodus.
- Dylai'r Timau Ymgysylltu roi mwy o bwyslais ar adnabod a chyfleu effaith cyllid ESI ar lefel ranbarthol.
- Dylai unrhyw rwydweithiau a hwylusir gan y Timau Ymgysylltu geisio adeiladu ar yr arferion da cyfredol y nodwyd gan gyfranwyr eu bod yn digwydd, yn enwedig ledled y de-ddwyrain, gyda ffocws ar fynd i'r afael â themâu neu faterion penodol mewn digwyddiadau yn y dyfodol.
- Dylai'r Timau Ymgysylltu archwilio sut y gallent fabwysiadu mwy o gysondeb yn eu dull o weithio gyda gweithrediadau a ariennir o ran y templedi a roddir i gasglu gwybodaeth gan weithrediadau am gynnydd a chanlyniadau a sicrhau bod gweithrediadau perthnasol yn cael gohebiaeth a gwahoddiadau i ddigwyddiadau gan yr holl Dimau Ymgysylltu.
- Lle nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd, dylai'r Timau Ymgysylltu archwilio sut y gallant ledaenu gwybodaeth, megis data cyswllt ar eu cyfer hwy eu hunain a Thimau Ymgysylltu eraill, bwletinau a chylchlythyrau, ar-lein.

3.7 Rydym yn argymell y canlynol ar gyfer y dyfodol:

- Bod y Timau Ymgysylltu yn cyfrannu at y trafodaethau cyfredol i symleiddio a rhesymoli strwythurau partneriaethau.
- Rhoi ystyriaeth i'r modd y gall y dyletswyddau cyfredol a gyflawnir gan y Timau Ymgysylltu gael eu cyflawni fel rôl sydd wedi'i hymgorffori a'i hintegreiddio mewn unrhyw bartneriaethau rhanbarthol wedi'u symleiddio yn y dyfodol.
- Gwneud ymdrechion i gynnal yr wybodaeth, yr arbenigedd a'r cysylltiadau sydd ar waith ar hyn o bryd ar draws y strwythur Timau Ymgysylltu er budd gwaith ymgysylltu yn y dyfodol.
- Os yw gweithgarwch ymgysylltu rhanbarthol yn mynd i gael ei gyllido o gronfa ganolog, dylid mabwysiadu ffordd fwy teg o ddosbarthu'r cyllid ym mhob rhanbarth.

Awduron yr Adroddiad: Ymchwil OB3, Dateb a Hatch Regeneris

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: Bryer, N., Bebb, H., Burrowes, E., a Mekki, G.. (2020). *Gwerthusiad o'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 38/2020.

Ar gael yn: https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-timau-ymgysylltu-rhanbarthol

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Charlotte Guinee
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd,
CF10 3NQ

E-bost: charlotte.guinee@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80038-619-8